**Llwybr at Gyflogaeth a Chefnogaeth Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol Conwy ar gyfer Cyflogwyr -** rhaglen ddysgu ar gyfer darparu pobl ddi-waith â’r sgiliau allweddol, dealltwriaeth a gwybodaeth i weithio o fewn Gofal Cymdeithasol yng Nghonwy, gan feithrin hyder a sgiliau cyfranogwyr a all arwain at gyflogaeth yn y sector yn y dyfodol.

**Er mwyn lansio’r Llwybr at Gyflogaeth, hoffem i gyflogwyr gofal gymdeithasol yng Nghonwy gynnig:**

- Cyfarfod ag unigolion dan hyfforddiant dros y we ar ddechrau’r rhaglen er mwyn egluro, fel cyflogwyr, y math o bobl yr ydych yn edrych amdanynt a beth yw gofynion y swydd.
- Cynnig wythnos o brofiad gwaith i’r unigolyn dan hyfforddiant – galluoga hyn i’r unigolion dan hyfforddiant gael blas o’r gwaith.
- Ar ddiwedd y rhaglen chwe wythnos, cyfarfod â’r unigolyn dan hyfforddiant i egluro’r broses ymgeisio a’r broses gyfweld ar gyfer y swydd.
- Bydd gan bob unigolyn dan hyfforddiant fentor a fydd yn cysylltu â’r cyflogwyr sy’n cynnig profiad gwaith.

Os hoffech gynnig profiad gwaith ac / neu fod yn rhan o’r rhaglen ar gyfer cyfarfod y cyflogwyr, gadewch i ni wybod - edrychwch ar y **Cyflwyniad** atodol o sesiwn **Friffio - Llwybr i Gyflogaeth** ddiweddar a chopi o’r **Rhaglen Gyflogaeth - Drafft** i gael rhagor o wybodaeth.